# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC (3)-13-08)

Dyddiad: 20 Mai 2008
Amser : 8.45am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 20 Mai 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Andrew RT Davies AC, Alun Davies AC ac Irene James AC. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eleanor Burnham AC.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol).

### SLC155 - Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Mai 2008. Fe'u gosodwyd ar" "6 Mai 2008". "

Yn dod i rym ar 29 Mai 2008.

### SLC159 - Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Mai 2008.

Fe'u gosodwyd ar

" "9 Mai 2008. Yn dod i rym ar 3 Mehefin.

### Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 25: Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 200-

### SLC156 - Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 200-

Gweithdrefn Cynulliad Arbennig (Rheol Sefydlog 25). Fe'i gwnaed 200- . Yn dod i rym 200-.

Ni chafodd y Cynulliad ei wahodd gan y pwyllgor i roi sylw arbennig i unrhyw offerynnau nac offerynnau drafft o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitemau eraill o fusnes

Trafododd y pwyllgor Fesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008 (fel y caniateir o dan Reol Sefydlog 15.6(ii)). Cafwyd tystiolaeth gan Jenny Randerson AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur ac esbonidd y rhesymeg y tu ôl i'r dewis o weithdrefn sy'n gymwys i'r darpariaethau hyn. Bydd trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Cynulliad cyn hir.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
20 Mai 2008